Adran Cymunedau / Communities Division

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

20 Mai 2019

Annwyl Randdeiliad

Cafodd y canllawiau statudol ar gyfer comisiynu gwasanaethau cymorth ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru eu cyhoeddi ar 1 Mai 2019, a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://llyw.cymru/comisiynu-gwasanaethau-trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol

Nod y canllawiau hyn yw hybu comisiynu cydweithredol safonol er mwyn darparu gwasanaethau mwy cyson ac effeithiol, ar sail anghenion, i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a diogelu a chefnogi dioddefwyr VAWDASV ar draws Cymru. Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi'r broses o gomisiynu ymyriadau integredig a seiliedig ar dystiolaeth gan wasanaethau VAWDASV arbenigol ac anarbenigol, ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, i gwrdd â phwrpas Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015, sef atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a diogelu a chefnogi dioddefwyr.

.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid drwy gydol 2019-2020 drwy gynrychiolwyr ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyllid Cynaliadwy, er mwyn cefnogi'r ymdrechion parhaus i ddatblygu'r seilwaith angenrheidiol i sicrhau cysondeb a chydweithredu effeithiol rhwng asiantaethau wrth gomisiynu gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus wrth fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a helpu dinasyddion Cymru i gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Yn gywir



Michelle Morgan
Uwch Reolwr Polisi VAWDASV / Senior VAWDASV Policy Manager
Tîm Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol / Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Team